

**Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd
Dydd Mercher, 8 Ionawr 2020 10:00 – 13:00
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Ystafell Seminar Weithredol, Ysbyty
Gwynedd, 2 Ffordd Penrhos, Bangor, LL57 2NA**

Cofnodion y Cyfarfod

Yn bresennol:

Jon Sparkes	Prif Weithredwr, Crisis (Cadeirydd)
Katie Dalton	Cyfarwyddwr, Cymorth Cymru
Peter Mackie	Darlennydd, Prifysgol Caerdydd
Naomi Alleyne	Cyfarwyddwr Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Clare Budden	Prif Swyddog Gweithredol, Tai Clwyd Alyn
Glynne Roberts	Rheolwr Rhaglen, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Gaynor Toft	Rheolwr Corfforaethol, Tai, Cyngor Ceredigion
Lindsay Cordery-Bruce	Prif Weithredwr, The Wallich
Clarissa Corbisiero	Cyfarwyddwr Polisi, Cartrefi Cymunedol Cymru
Tamsin Stirling	Arbenigwr Tai llawrydd
Nick Morris	Rheolwr Polisi a Chyfathrebu, Crisis
Emma Williams	Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Tai, Llywodraeth Cymru
Sarah Rhodes	Pennaeth Digartrefedd, Llywodraeth Cymru
Mark Price	Arweinydd Prosiect ac Ysgrifenyddiaeth y Grŵp, Llywodraeth Cymru
<u>Ymddiheuriadau:</u>	
John Puzey	Prif Weithredwr, Shelter Cymru
Bonnie Navarra	Arweinydd Ysgogi Newid, Swyddfa Cenedlaethau'r Dyfodol
Frances Beecher	Prif Weithredwr, Llamau (wedi ymuno â rhan o'r cyfarfod dros y ffôn)

Croesawodd JS bawb i seithfed cyfarfod y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd a nodwyd yr ymddiheuriadau.

Cychwynnodd EW y cyfarfod gan roi trosolwg o'r camau gweithredu mewn perthynas â chysgu allan y gaeaf hwn, yn y pedair ardal awdurdod lleol allweddol. Cytunwyd ar bron i £1m o gyllid ychwanegol ar draws yr awdurdodau lleol a'u partneriaid, sy'n ymateb cadarnhaol. Bydd angen i LIC ystyried y mater er mwyn sicrhau cynaliadwyedd fel nad oes angen "cyllid brys" ychwanegol y gaeaf nesaf. Cadarnhaodd EW hefyd, yn sgil cyfarfod gyda'r tri heddlu yng Nghymru, na fydd

pwerau'r Ddeddf Crwydraeth yn cael ei defnyddio ond pan fo popeth arall wedi methu.

Ni fwriedir cynnal sesiynau hyfforddiant allgymorth grymusol pellach ar hyn o bryd ond gellir trefnu sesiwn ychwanegol os oes digon o alw. Yn y tymor canolig i'r hirdymor, rhoddir ystyriaeth i ddarparu sesiynau pellach sy'n cysylltu â gwaith Cymorth Cymru i ddechrau llunio pecyn o hyfforddiant cydgysylltiedig. Bydd ymarfer "adolygu a myfyrio" yn cael ei gynnal ar ôl diwedd rhaglen ariannu'r gaeaf i ystyried effaith yr ymyriadau tymor byr, a'r dysgu ar gyfer y dull parhaus o fynd i'r afael â chysgu allan.

Ystyriaeth o G1 - y papur argymhellion drafft

Roedd hanner cyntaf y cyfarfod yn ymwneud ag adolygiad lefel uchel o argymhellion drafft yr ail adroddiad. Nododd y grŵp feysydd yr oedd angen eu datblygu ymhellach yn yr argymhellion drafft (e.e. camddefnyddio sylweddau, iechyd meddwl, rôl unedau cyfeirio disgyblion, digartrefedd ieuencid, pwyslais cryfach ar rôl y sector rhentu preifat, ystyriaeth o gydraddoldeb ar wahanol gymunedau, fforddiadwyedd (yn arbennig ymhlith pobl ifanc), ystyried y pwerau datganoledig/y pwerau a gedwir yn ôl mewn rhai meysydd (ee lles, pwerau codi trethi a'r system gyfiawnder yng Nghymru) a fydd yn cael eu hystyried a'u nodi. Mae angen adlewyrchu chyfeirio hefyd at faterion pwysig eraill yr ydym yn gweithio arnynt ar hyn o bryd, e.e. fforddiadwyedd rhent ar gyfer tai cymdeithasol, cydweithio rhwng y cymdeithasau tai a'r awdurdodau lleol, cyd-gynhyrchu ac atebolrwydd.

Yn ogystal, bydd angen ystyried pa argymhellion i'w gweithredu i newid y system a sut y dylid gwneud hynny er mwyn symud o'r argyfwng ac atal digartrefedd yn gyffredinol, a sut mae'r newid hwnnw i'r system yn edrych ac yn cael ei reoli. Mae angen eglurder hefyd ynghylch pa ddata sy'n cael eu cofnodi ar hyn o bryd a ble mae angen newid hyn er mwyn gallu cymryd camau ataliol yn fwy effeithiol. Byddai'n ddefnyddiol gwybod a oes ffordd o feddwl cydgysylltiedig mewn perthynas â chynlluniau'r 3 Bwrdd Cynllunio Rhanbarthol wrth symud ymlaen, ac a yw digartrefedd yn amlwg yn eu cynlluniau.

Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i'r grid o grwpiau targed penodol sy'n wynebu'r risg fwyaf (gweler y daflen) y mae angen eu croesyfeirio yn yr adroddiad fel atodiad gyda fframwaith. Bydd KD a PM yn gweithio ar hyn yn benodol.

Roedd cytundeb hefyd o fewn y Grŵp Gweithredu bod y cwestiwn hwn (1) hefyd yn cysylltu â C4 ynghylch sut y cyflenwir gwasanaethau a phwy sy'n gwneud pa rôl.

Caiff yr argymhellion eu troi'n adroddiad llawn a fydd yn cael ei lunio i'r Grŵp Gweithredu ei ystyried a'i gymeradwyo yn y cyfarfod nesaf. Bydd wedyn yn cael ei

gwblhau'n derfynol a'i gyflwyno i LIC. Diben yr adroddiad hwn yw gofyn "pa fframwaith gyffredinol" sydd ei angen i roi terfyn ar ddigartrefedd yn gyfan gwbl.

Y gweithlu a diwylliant

Roedd yr rhan hon o'r cyfarfod yn ystyried y strwythurau'n ymwneud â'r gweithlu a diwylliant (gweler y daflen o'r cyfarfod) gan ystyried yr hyn sy'n digwydd eisoes, beth sydd angen digwydd a beth yw'r materion sylfaenol a fydd yn effeithio ar hynny.

Rhannwyd y Grŵp Gweithredu'n ddau is-grŵp i ystyried yr egwyddorion a'r materion o safbwynt y gweithlu a diwylliant. Bydd yr ystyriaethau o'r is-grwpiau'n cael eu bwydo i'r prif adroddiad.

Mark Price

Yr Is-adran Tai

Llywodraeth Cymru